WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 522A2016



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 4 |
| Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith sydd yn debygol o'i alluogi i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17 | 5 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 6 |

Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Perfformiad | 9 |
| Defnydd o adnoddau | 12 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 14 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 15 |
| Atodiad 3 – Tystysgrifau cydymffurfio | 17 |

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) ers cyhoeddi'r Adroddiad Gwella diwethaf ym mis Awst 2015. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa wrth gwblhau'r gwaith hwnnw.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir isod y gwaith a gyflawnwyd ers ein hadroddiad diwethaf:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod er mwyn cyflawni ei amcanion gwella. |
| Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad cyhoeddedig yr Awdurdod o berfformiad, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Diogelwch Tân | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gwerthuso effaith gweithgarwch diogelwch tân cymunedol a busnes. Canfu'r adolygiad fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau priodol sydd yn gwella diogelwch tân ond, yn debyg i awdurdodau eraill, nid oes ganddo fframwaith er mwyn cynnal gwerthusiad llawn o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny. Roedd yr adroddiad manwl yn cynnwys un cynnig ar gyfer gwella i'r Awdurdod, a dau gynnig ar gyfer gwella i'w gweithredu ar raddfa genedlaethol. |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r modd y mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Canfuwyd yn yr adolygiad fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol. Nid oedd yr adroddiad manwl yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer gwella, ac fe'i nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ar 25 Ebrill 2016.<br>Fodd bynnag, dylid darllen canfyddiadau'r adroddiad hwn ochr yn ochr â pharagraffau 20 i 22, sy'n tynnu sylw at fater pwysig a ddaeth i'n sylw ym mis Medi 2016 wrth archwilio ein cyfrifon ar gyfer 2015-16. |

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith sydd yn debygol o'i alluogi i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17

6 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ymrwymiad i osod amcanion gwella a chyhoeddi gwerthusiad o'i berfformiad.

b Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau priodol sydd yn gwella diogelwch tân, ond yn gyffredin ag awdurdodau eraill, nid oes ganddo fframwaith er mwyn cynnal gwerthusiad llawn o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn.

- Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân ar eiddo domestig, ond ceir llai o eglurder ynghylch y cynlluniau ar gyfer eiddo busnes, ac nid oes unrhyw gynlluniau ariannol strategol ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân.
- Mae'r Awdurdod yn cefnogi diogelwch tân cymunedol drwy gyflawni gweithgareddau diogelwch ac atal tân helaeth, ac er ei fod yn rheoli risgiau'n gysylltiedig â lefel is o weithgarwch diogelwch tân ar gyfer busnesau, nid yw wedi esbonio'r risgiau hyn na'r dull o'u rheoli wrth yr aelodau.
- Nid oes dull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae trefniadau adrodd lleol cyfredol yn disgrifio maint y gweithgarwch, ond nid ydynt ond yn rhoi darlun rhannol o berfformiad.

c Ym mis Mawrth 2016, nodwyd yn ein Hasesiad o Gydnerthedd Ariannol fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn i sicrhau cydnerthedd ariannol:

- Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad o 20 y cant mewn gwariant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu.
- Cefnogir gwaith cynllunio ariannol gan gyfundrefn ariannol sefydlog, ac fe geir dealltwriaeth dda o'r prif risgiau a'r heriau.
- Cefnogir rheolaeth ariannol gan drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb a llunio rhagolygon, ac mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda yn y gorffennol.
- Mae'r trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac wedi'u cefnogi gan heriau clir, adroddiadau manwl gywir ac ymrwymiad ar lefel uwch.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Awdurdod, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Mae'n bwysig nodi y gallai'r mater y tynnwyd sylw ato ym mharagraffau 20 i 22 arwain at argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod, yn dilyn casgliad ein gwaith archwilio cyfrifon 2015-16.

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion.

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn ers ein hadroddiad diwethaf. Fodd bynnag, mae materion ac iddynt lai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion gwella, wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill a'u nodi yn y tabl isod.

## Cynigion ar gyfer gwella – Trefniadau diogelwch tân

| Cynigion ar gyfer gwella – Trefniadau diogelwch tân |
|---|
| **C1**<br>Ar lefel genedlaethol, datblygu a chytuno ar egwyddorion er mwyn gwerthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyraethau, digwyddiadau a gwaith atal cyfredol sydd yn rhoi sylw i:<br>• Berthnasedd - i ba raddau y bydd ymyraethau'n esgor ar ganlyniadau ystyrlon.<br>• Capasiti a gallu - defnydd effeithiol o adnoddau.<br>• Effeithlonrwydd - dull o fesur sut mae adnoddau a mewnbwn yn cael eu trosi'n ganlyniadau a deilliannau.<br>• Effeithiolrwydd - i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni ymyraethau, neu y disgwylir eu cyflawni, gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd - y budd yn parhau ar ôl cwblhau'r mewnbwn cychwynnol. Y tebygolrwydd o fudd hirdymor.<br>• Gwerth am arian - y cydbwysedd rhwng cost un mewnbwn a mentrau eraill.<br>• Materion cydraddoldeb. |
| **C2**<br>Ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Byrddau Iechyd perthnasol er mwyn canfod nifer yr anafiadau heb eu hadrodd yn deillio o danau, a galluogi adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed neu eiddo risg uwch. |
| **C3**<br>Dylai'r Awdurdod:<br>• I gyd-daro â gwaith i ddiwygio staff yr Adran Diogelwch Tân Busnes, sefydlu Cynllun Gwasanaeth sydd yn pennu'r weledigaeth ar gyfer cyflawniadau posibl y Gwasanaeth o ran Diogelwch Tân Busnesau, a sut y gellir ei gwerthuso; a<br>• datblygu cynlluniau strategol ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân sydd yn rhoi sylw i'r ffrydiau ariannu yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ymrwymiad i osod amcanion gwella a chyhoeddi gwerthusiad o'i berfformiad

### Archwiliad o Gynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 yr Awdurdod

9 Ym mis Mai 2015 a Gorffennaf 2016, cyflwynwyd tystysgrifau gennym yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r tystysgrifau wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

### Adolygiad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2014-15

10 Ym mis Tachwedd 2015, cyflwynwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

## Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau priodol sydd yn gwella diogelwch tân, ond yn gyffredin ag awdurdodau eraill, nid oes ganddo fframwaith er mwyn cynnal gwerthusiad llawn o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn

11 Mae hyrwyddo diogelwch tân[1] yn swyddogaeth statudol graidd ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae gan yr awdurdodau tân ac achub rolau wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â gorfodaeth diogelwch tân, fel y nodwyd yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tan) 2005. Yn ystod y flwyddyn, buom yn adolygu trefniadau ym mhob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru er mwyn asesu'r modd y cafodd gweithgarwch ei gynllunio; sut yr oedd yn cael ei gyflawni ac a oedd modd gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgarwch hwnnw.

12 Gwelsom fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau priodol sydd yn gwella diogelwch tân ond, yn gyffredin ag awdurdodau eraill, nid oes ganddo fframwaith er mwyn cynnal gwerthusiad llawn o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn.

13 Roedd gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân eiddo domestig, ond roedd llai o eglurder ynghylch y cynlluniau ar gyfer eiddo busnes, ac nid oedd unrhyw gynlluniau ariannol strategol ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân:

a roedd yr Awdurdod yn alinio gweithgareddau diogelwch tân ag anghenion lleol a disgwyliadau cenedlaethol;

1 Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y termau 'diogelwch tân cymunedol' (sydd yn cynnwys eiddo domestig a mentrau cymunedol) a 'diogelwch tân busnesau' i ddisgrifio meysydd ffocws penodol.

b yn wahanol i’w drefniadau ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân cymunedol, roedd llai o eglurder ynghylch cynlluniau ar gyfer diogelwch tân busnesau, a hynny’n bennaf gan nad oedd cynlluniau cyfarwyddiaeth wedi cael eu rhannu ag aelodau’r Awdurdod; ac

c roedd yr adnoddau a oedd yn cael eu darparu gan awdurdodau tân ac achub unigol ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân cymunedol yn amrywio, roedd cyllid grant y llywodraeth yn gostwng, ac nid oedd cynlluniau ariannol strategol ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân o fewn yr Awdurdod.

14 Roedd yr Awdurdod yn cefnogi diogelwch cymunedol drwy gynnal llawer o weithgareddau diogelwch ac atal tân domestig, ac er ei fod yn rheoli’r risgiau’n gysylltiedig â lefel is o weithgarwch diogelwch tân busnes, nid oedd wedi rhoi esboniad o’r risgiau hyn, na’r dull o’u rheoli i’r aelodau.

a Roedd diogelwch tân cymunedol yn cael ei drafod drwy amrywiaeth o weithgareddau ataliol. Roedd rhai o’r rhain wedi’u hanelu at unigolion neu grwpiau o unigolion, drwy raglenni addysg wedi’u targedu, er enghraifft, roedd rhai ohonynt yn gysylltiedig â darparu cyfarpar fel larymau tân a chyfarpar atal tân, a rhai’n cynnnwys addysg gyffredinol a gwybodaeth am atal tân.

b Mae tanau annomestig yn troi’n llai ac yn llai cyffredin, mae’r amser a dreulir ar arolygiadau diogelwch tân busnesau wedi lleihau, ac mae’r adran Diogelwch Busnesau wedi cael ei had-drefnu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

15 Nid oes dull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae trefniadau adrodd lleol cyfredol yn disgrifio maint y gweithgarwch, ond nid ydynt ond yn rhoi darlun rhannol o berfformiad:

a mae’r awdurdodau tân ac achub yn cyflawni gweithgarwch diogelwch tân i’r un dibenion, ac er bod hynny’n cael ei fonitro, ni cheir ffordd gyffredin o werthuso pa mor effeithlon yw’r dull o gyflawni’r gweithgarwch hwnnw;

b gwneir defnydd helaeth o wiriadau diogelwch tân yn y cartref er mwyn lliniaru ac ymdrin â risgiau diogelwch tân domestig, ond ni cheir meini prawf gwerthuso digonol; ac

c nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei chydgysylltu er mwyn llywio gweithgareddau diogelwch tân, ac mae’r diffyg trefniadau ar gyfer rhannu data rhwng partneriaid yn rhwystr ar lefelau gweithredol.

## Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg o gynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod

16 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau Iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

17 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl awdurdodau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Bydd y Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

18 Mae adroddiadau arolygu a llythyrau a anfonwyd oddi wrth y Comisiynydd i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod

19 Ar 26 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod. Roedd y llythyr yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2014-15, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Ceir hyd i'r llythyr archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn.

20 Mae ein gwaith o archwilio cyfrifon 2015-16 yn dal i fynd rhagddo, ac ar 29 Medi 2016 cymeradwyodd yr Awdurdod set ddrafft ddiwygiedig o gyfrifon i'w cyhoeddi erbyn y dyddiad olaf sef 30 Medi 2016. Yn ôl y gofyn, cafodd y set ddrafft o gyfrifon eu cyhoeddi ynghyd â datganiad ac esboniad.

21 Yn y datganiad a'r esboniad nodwyd bod: Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi'r set ddrafft gyfredol o'i ddatganiadau ariannol ar gyfer 2015-16 ar ei wefan. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar 29 Medi 2016. Nid yw'r datganiadau wedi cael eu harchwilio, ac mae'r farn archwilio yn ddibynnol ar gasgliad yr archwiliad. Cafodd y datganiadau drafft eu cyhoeddi erbyn 30 Medi i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Ar ôl cael casgliad yr archwiliad, bydd yr Awdurdod yn ystyried ac yn ail-gymeradwyo'r datganiadau ariannol archwiliedig, a fydd yn cael eu cyhoeddi wedyn hefyd. Mae'r oedi gyda'r farn archwilio wedi codi yn bennaf oherwydd y penderfyniad i aros am ganlyniad yr archwiliad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi sydd wrthi'n cael ei gynnal yn yr Awdurdod.

22 Mae'r mater sydd wrth wraidd hyn yn ymwneud â methiant yr Awdurdod i gyflwyno ei ffurflenni TAW chwarterol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cyflwynwyd y ffurflenni diwethaf ar gyfer y chwarter hyd at 29 Chwefror 2013. Felly, roedd y ffurflenni chwarterol dros dair blynedd yn hwyr ac yn cynnwys dyledion heb eu hawlio gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o £6 miliwn. Cyflwynwyd y ffurflenni ym mis Awst a mis Medi 2016, gan sbarduno archwiliad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n dal i fynd rhagddo. Mae swyddogion wedi dweud wrthym fod archwiliad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dod i'w derfyn a'u bod yn disgwyl i Gyllid a Thollau EM dalu'r dyledion a wiriwyd yn fuan. Ymchwilir i hyn fel rhan o'r broses o ddod â'n gwaith archwilio cyfrifon 2015-16 i ben. Rydym yn gobeithio adrodd arnynt yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ar 12 Rhagfyr 2016.

## Ym mis Mawrth 2016 nodwyd yn ein Hasesiad o Gydnerthedd Ariannol fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn i sicrhau cydnerthedd ariannol

23 Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei gyfleoedd a'i risgiau ariannol yn effeithiol, ac i sicrhau sefyllfa ariannol gadarn. Ystyriwyd a oedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol er mwyn sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (tua thair i bum mlynedd yn y dyfodol fel arfer). Er ei bod hi'n bosibl y bydd gan yr Awdurdod fwy o sicrwydd dros gylch blynyddol, bydd pwysau ariannol yn effeithio arno y tu hwnt i gyfnod y setliad cyfredol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth o ddull yr Awdurdod o reoli ei gyllid yn y gorffennol diweddar, a thros y tymor canolig wrth ffurfio ein barn ynghylch cydnerthedd ariannol yr Awdurdod.

24 Nid oedd ein hadroddiad manwl yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer gwella, ac fe'i nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad ar 25 Ebrill 2016. Canfuom fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol am y rhesymau canlynol:

- a mae'r Awdurdod wedi cyflwyno gostyngiad o 20 y cant mewn gwariant o gymharu â 2011-12, ac mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu;
- b cefnogir gwaith cynllunio ariannol gan gyfundrefn ariannol sefydlog, ac fe geir dealltwriaeth dda o'r prif risgiau a'r heriau;
- c cefnogir rheolaeth ariannol gan drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb a llunio rhagolygon, ac mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda yn y gorffennol; ac
- ch mae'r trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac wedi'u cefnogi gan heriau clir, adroddiadau manwl gywir ac ymrwymiad ar lefel uwch.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Wynne Evans
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

Annwyl Mr. Evans

## Llythyr Archwilio Blynyddol - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn datgan eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y prif faterion oedd yn deillio o'r archwiliad cyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 30 Medi 2015, ac fe geir adroddiad manylach gyda hyn.

## Yr wyf yn fodlon bod gan Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau.

## Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yn gywir,

Anthony Barrett
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Chris Davies, Prif Swyddog Tân;
Elizabeth Aitken, Swyddog Adran 151.

# Atodiad 3 – Tystysgrifau cydymffurfio

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Cyhoeddwyd y dystysgrif ar 5 Mai 2015

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

### Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; ac
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella, yn unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cyhoeddwyd y dystysgrif ar 20 Tachwedd 2015

Yn dilyn cyhoeddi asesiad o berfformiad 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) ar 29 Hydref 2015, tystiaf fy mod wedi archwilio'r asesiad hwnnw yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun. ac
- o ran cyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cyhoeddwyd y dystysgrif ym mis Gorffennaf 2016

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Andy Bruce, Rheolwr

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru